

## Cofion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mr Maldwyn Jones (Cefn Berain) fore Sul diwethaf. Diolchwn yn arbennig am bopeth a fu i'w deulu, i'r capel yng Nghefn Berain lle rhoddodd bron i 50 mlynedd o wasanaeth fel blaenor, am ei gymwynasgarwch i'r ardal, ac am ei dystiolaeth i ni. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Meira, Arwel, Clwyd a Gwenan a gweddill y teulu wrth inni gofio gydag anwyldeb amdano. Hyderwn y cânt hwythau adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth.
- Anfonwn ein cofion cynhesaf at Robert Henry Roberts (Cefn Meiriadog) gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Arrowe Park yn ystod yr wythnos, Elizabeth Jones (Groes) sydd yn yr Inffirmari, a hefyd Kate Davies (Llansannan) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd ers rhai dyddiau. Cyflwynwn y tri i ofal tyner ein Duw a hyderwn y bydd iddynt brofi agosrwydd yr Arglwydd y dyddiau hyn.

## Derbyn yn Aelodau

Gair i'ch atgoffa ein bod yn dymuno gwybod faint o ieuencid 15+ sydd â diddordeb i ddod i gyflwyniad syml i Gristnogaeth ac, os byddan nhw'n awyddus, i gael eu derbyn yn aelodau yn eu heglwys leol wedi hynny. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch ag Aneurin, Rhodri neu Mair **cyn diwedd mis Chwefror** er mwyn inni gael penderfynu pryd fyddai'r amser gorau i gynnal y sesiynau.

## I ddod

- **WORD ALIVE** – Gwyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist ym mharc gwyliau Pontins, Prestatyn LL19 7LA rhwng Mawrth 28ain – Ebrill 2il, ac Ebrill 2il – 6ed. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: 0871 222 0201 / [www.wordaliveevent.org](http://www.wordaliveevent.org)
- **LLANW** – Cyfle i'r teulu cyfan ddathlu'r atgyfodiad yng ngŵyl Gristnogol Llanw yng Nghricieth rhwng Ebrill 6ed-10fed. Y siaradwr yn oedfaon y bore fydd Dr Rhodri Glyn, a bydd siaradwyr gwahanol yn arwain oedfaon yr hwyr. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar y wefan: [www.llanw.org](http://www.llanw.org).
- **CYFARFOD CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn Festri Capel Mawr, Dinbych nos Fawrth, Ebrill 28fed. Y siaradwr gwadd fydd y Parch. Christopher Prew.
- **UNDEB ATHROFA'R BALA** – Cynhelir y Gynhadledd Flynyddol yn Seilo, Llandudno dydd Mawrth, Mai 5ed- am 10.00. Y siaradwr fydd Ei Anrhydedd Eifion Roberts a'r Parch. John Gwilym Jones. Croeso i bawb.
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yn Llandudno dydd Mawrth, Mai 12fed. Mwy o fanylion i ddilyn.

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Mathew 18:1-5 (BCND tud.21 / BCN: tud.19)



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 22<sup>ain</sup> Chwefror 2015 (BCND tud.490 / BCN: tud.448)

## Darlleniad y Dydd

Salm 1

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.rhaglendorcas.com](http://www.rhaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Croeso cynnes i oedfaon y dydd ym Mro Aled wrth i ni gael cyfle unwaith yn rhagor i ganmol ein Gwaredwr gyda'n gilydd a cheisio Duw mewn mawl, gweddi a thrwy wrando ar ei Air. Gofynnwn i'r Ysbryd Glân weithio ynom i'n cysuro, ein calonogi neu'n dwysbigo yn ôl doethineb Duw, a gweddiwn ar i'n holl bregethwyr brofi rhwyddineb wrth gyhoeddi Gair y Bywyd heddiw.

Faint ohonoch gafodd fwydlen wahanol ddydd Mawrth? Siwgr a lemon, ychydig o hufen iâ a thriog melyn o bosib? Fel y gallwch ddychmygu mae dydd Mawrth Crempog yn dipyn o ffefryn yma, ond o feddwl, peth digon rhyfedd yw bwyta llwyth o un math o fwyd ar un diwrnod y flwyddyn yn unig! Wrth gwrs, dyna'r cefndir hanesyddol i arferiad Dydd Mawrth Ynyd – pobl yn cael gwared â chynnwys y pantri ar gyfer llymder cyfnod y Grawys. Ond tydi'r ffordd yma o fwyta ddim yn syniad da yn gyffredinol; amrywiaeth cytbwys yn gyson yw cyngor arbenigwyr deietegol!

Mae'r un math o syniad yn wir er lles ein heneidiau hefyd – amrywiaeth cytbwys a chyson o Air Duw i gynnal a chyfoethogi ein bywydau ysbrydol. Pan oedd Paul yn gadael Cristnogion Effesus, gallodd ddweud yn hyderus wrthynt: 'Dw i wedi dweud popeth sydd ei angen am y ffordd mae Duw'n achub, a beth mae'n ei ddisgwyl gynnwys ni.' (Actau 20:27 Beibl.net) Gwyddai fod y Beibl yn allweddol i ddod â phobl i adnabod ac i gredu yn Iesu Grist, a'i fod yr un mor allweddol i Gristnogion dyfu yn eu perthynas â Christ trwy eu hoes hefyd.

Wrth i ni droi at ein darlleniad ar y cyd gwelwn y Salm Gyntaf yn rhoi cyfarwyddyd digon tebyg ar bwysigrwydd Gair Duw i'n bywydau. Mae'r Salm yn cyffelybu'r crediniwr sy'n myfyrio ddydd a nos ar Gyfraith yr Arglwydd i goeden fythwyrdd ar lan afon. Bydd y goeden honno'n dwyn ffrwyth yn ei thymor ac ni fydd sychder na thywydd gwael yn gwywo ei dail.

Dyma batrwm gwerthfawr i'r Cristion – darllen ac ystyried y Beibl yn gyson a gadael i neges Duw ein newid o ddydd i ddydd. Wrth wneud hynny mae'r Salm yn ein sicrhau y byddwn yn dwyn ffrwyth yn yr amser priodol (Galatiaid 5:22) ac y byddwn yn cael ein cadw hyd yn oed trwy stormydd mwyaf brawychus bywyd.

Cofiwn i Iesu ddweud nad 'ar fara yn unig y bydd rhywun fyw, ond ar bob gair sy'n dod allan o enau Duw' (Mathew 4:4), sy'n golygu fod y Beibl yr un mor allweddol i'r Cristion ac yw bwyd i'n cyrff. Beth am i ni edrych eto felly ar ein deiet ysbrydol, a gofyn i'n Duw graslon ein gwneud yn bobl sy'n awchu am gael ei adnabod Ef yn well?

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Rhodri

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 22<sup>ain</sup>
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Iau – 26<sup>ain</sup>
- **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
  - **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener – 27<sup>ain</sup>
- **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf – 1<sup>af</sup>
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri, a bydd Aneurin yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 22<sup>ain</sup>
- Bydd Dr Andras Iago yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac oedfa deuluol yng Nghefn Meiriadog am 2.00 (SYLWCH AR Y NEWID LLEOLIAD). Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 1<sup>af</sup>
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llansannan

- Sul yma – 22<sup>ain</sup>
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydrededeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau – 26<sup>ain</sup>
- Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf – 1<sup>af</sup>
- Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydrededeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Rhaghybys
- Cynhelir Swper Gŵyl Ddewi Cymdeithas Llansannan yn y Ganolfan nos Wener, Mawrth 6ed am 7.00. Yn dilyn y swper, bydd adloniant gan Eilir Rowlands a'i griw. Enwau ac addewidion bwyd i Elen Owen, Yr Erw (870269) neu Rhys Dafis (870362) erbyn dydd Sul, Mawrth 1af, os gwelwch yn dda.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 22<sup>ain</sup>
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf – 1<sup>af</sup>
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwirydd i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 22<sup>ain</sup>
- Bydd Haf a Huw a theulu Tan y Graig yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00. Ni fydd Ysgol Sul yn Saron.
- Sul nesaf – 1<sup>af</sup>
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 22<sup>ain</sup>
- Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 (SYLWCH AR YR AMSER) ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 1<sup>af</sup>
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang yn Groes am 10.00 a bydd Gwasanaeth Gŵyl Ddewi Undebol yng Nghapel Henllan am 2.00 o dan arweiniad Aneurin. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 22<sup>ain</sup>
- Bydd Mr Gwilym Tudur yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-rededeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Sul nesaf – 1<sup>af</sup>
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion yng Nghefn Berain am 2.00.

### Dalier Sylw

- Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.